# Ymgynghoriad Rheolau Safonol Rhif 15: Rheolaethau Cyfarpar Hylosgi Canolig a Generaduron Penodol

# Crynodeb o ymatebion a phenderfyniadau'r ymgynghoriad

**Rheolau safonol ar gyfer Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016**

Mawrth 2020

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu’r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru

# Crynodeb

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 yn ein galluogi ni i gynnig trwyddedau safonol er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnes wrth gynnal safonau amgylcheddol. Maen nhw'n seiliedig ar setiau o reolau safonol y gallwn eu cymhwyso'n eang yng Nghymru ac yn Lloegr. Caiff y rheolau eu datblygu gan ddefnyddio asesiadau o'r risg amgylcheddol a berir gan y gweithgaredd.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos o 4 Tachwedd 2019 hyd at 31 Ionawr 2020.

Cynigiodd yr ymgynghoriad ddiwygiadau i wyth rheol safonol ac asesiad risg o ran cyfarpar hylosgi canolig risg isel a generaduron penodol Tranche B.

Gwnaethom wahodd safbwyntiau ar ddiwygiadau i'r setiau canlynol o reolau safonol:

- **SR2018 Rhif 1**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng 1 a 5 MW
- **SR2018 Rhif 2**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng 1 a 2 MW gyda lefelau uchel o NOx cefndirol
- **SR2018 Rhif 3**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng 1 a 2 MW mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer neu lle ceir lefelau uchel o NOx amgylchynol
- **SR2018 Rhif 4**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, rhwng 1 a 20 MW, sydd â pheiriannau nwy neu ddiesel sy'n lleihau allyriadau ac a weithredir am lai na 500 awr y flwyddyn
- **SR2018 Rhif 5**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, rhwng 1 a 20 MW, sydd â pheiriannau nwy neu ddiesel sy'n lleihau allyriadau ac a weithredir am lai na 1,500 awr y flwyddyn
- **SR2018 Rhif 6**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng 1 ac 1.2 MW gyda lefelau uchel o NOx cefndirol
- **SR2018 Rhif 7**: rheolau sefydlog ar gyfer cyfarpar hylosgi canolig sefydlog newydd, risg isel rhwng 1 a < 20 MW (ar waith ar ôl 20 Rhagfyr 2018)
- **SR2018 Rhif 8**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol symudol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng <1 a 2 MW

# Cynnwys

**Ymgynghoriad Rheolau Safonol Rhif 15: Rheolaethau Cyfarpar Hylosgi Canolig a Generaduron Penodol** **i**

**Crynodeb** **iii**

**Cynnwys** **iv**

**1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn** **1**

**2 Y camau nesaf** **6**

# 1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Gwnaethom wahodd sylwadau ar y cynigion gan weithredwyr, cymdeithasau masnach a busnesau, rheoleiddwyr eraill, ac aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn materion amgylcheddol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos o 4 Tachwedd 2019 hyd at 31 Ionawr 2020.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad ac unrhyw bwyntiau allweddol eraill a godwyd. Mae'n nodi'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad.

## 1.1 Lefel yr ymateb

Gwnaethom dderbyn dau ymateb, sydd wedi'u hystyried gennym. O'r ddau ymateb:

- Roedd un gan weithredwr
- Roedd un gan gorff/cymdeithas masnach

## 1.2 Cynigion y gwnaethom ymgynghori yn eu cylch

Cynigiodd yr ymgynghoriad y diwygiadau canlynol i SR2018 Rhif 1 i Rif 6 a Rhif 8:

- Cyflwyno gweithgaredd penodol ar gyfer cyfarpar hylosgi canolig newydd (Tabl 2.1)
- Ychwanegu Rheol 3.2.2
- Egluro amserlenni ar gyfer cynnal a chyflwyno canlyniadau monitro yn Rheolau 3.1.2 a 4.2.2
- Cymhwyso Rheol 4.3.3 yn gyson, sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r amseroedd monitro y gofynnwyd amdanynt
- Ychwanegu Rheol 4.3.5 i'w gwneud yn ofynnol i hysbysu newid i gyfarpar hylosgi canolig newydd a gwmpesir gan y rheolau safonol
- Ychwanegu gwerthoedd terfyn allyriadau a gofynion monitro ar gyfer unrhyw ran o eneradur penodol sy'n gyfarpar hylosgi canolig newydd (Tabl 3.2) (ac eithrio SR2018 Rhif 8)

Gwnaethom hefyd fanteisio ar y cyfle i ddiwygio SR2018 Rhif 1 a Rhif 6 i gynnwys amodau sy'n ymwneud â lleihau allyriadau. Mae hyn yn berthnasol i weithredwyr y mae angen systemau lleihau allyriadau eilaidd arnynt i gydymffurfio â gwerthoedd terfyn allyriadau (diwygiad i Dabl 2.3 ac ychwanegu Rheol 3.2.5).

Gwnaethom hefyd gynnig y diwygiadau canlynol i SR2018 Rhif 7:

- estyn y mathau o danwydd sy'n dderbyniol
- pennu pellter sgrinio cysylltiedig i'r derbynyddion ecolegol
- galluogi'r defnydd cyfyngedig o danwydd wrth gefn ar gyfer boeleri nwy

## 1.3 Cwestiynau'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pedwar cwestiwn:

**Cwestiwn 1**: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i ddiwygio'r setiau o reolau safonol?

**Cwestiwn 2**: A oes unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r rheolau hyn?

**Cwestiwn 3:** Dywedwch wrthym am unrhyw effaith ariannol ar eich busnes yn sgil gwneud y newid arfaethedig hwn.

**Cwestiwn 4**: Dywedwch wrthym a oes gennych unrhyw sylwadau pellach nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau blaenorol a rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i gefnogi eich sylwadau.

## 1.4 Canfyddiadau allweddol a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd

Cytunodd y ddau a ymatebodd â'r diwygiadau arfaethedig i'r setiau o reolau safonol, ond roeddent yn teimlo y dylid eu gwneud yn fwy eang i ganiatáu i fwy o weithgareddau ddod o dan y set o reolau safonol.

Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod y diwygiadau arfaethedig i'r rheolau'n briodol ar gyfer y gweithgareddau hyn ac rydym yn bwriadu rhoi'r setiau o reolau diwygiedig ar waith a'u cyhoeddi ym mis Ebrill 2020.

## 1.5 Ein hymatebion

### 1.5.1 Cwmpas y setiau o reolau safonol

**Sylw**

Nododd un ymatebydd nad yw'r cynigion yn cynnwys digon o fathau o gyfarpar o hyd, gan esbonio bod eithrio injans a thyrbinau tanwydd deuol yn rhwystr rhag defnyddio'r setiau o reolau safonol. Awgrymodd ehangu eu cwmpas trwy ddiffinio a chynyddu 'isafswm uchder cyrn simdde'.

**Ein hymateb**

Mae uchderau'r cyrn simdde wedi'u pennu ar gyfer pob senario gan ddefnyddio modelu gwasgaru a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gan dybio'r achosion gwaethaf o ran lleoliadau gyda'r gwynt. Rydym o'r farn y gallai cael meini prawf ehangach wneud y rheolau yn rhy gymhleth, ac rydym yn teimlo ein bod wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cael rheolau y gellir eu deall a nifer y gwahanol fathau o drwyddedau rheolau safonol sydd ar gael.

**Sylw**

Nododd y ddau ymatebydd fod y terfyn ar y pellter sgrinio ar gyfer agosrwydd derbynyddion dynol yn rhwystr rhag defnyddio'r trwyddedau rheolau safonol, sy'n arbennig o berthnasol i ysbytai, lle mae aelodau'r cyhoedd gerllaw.

Cyfeiriodd un ymatebydd at SR2018 Rhif 1 fel enghraifft o hyn, ac awgrymodd un arall ddiffinio 'isafswm uchder cyrn simdde' uwch ar gyfer cyfarpar y mae ganddo dderbynyddion dynol gerllaw.

Nid oedd un ymatebydd ychwaith yn sicr a oes modd cyfiawnhau dull cadwrol o'r fath o ran budd amgylcheddol ac mae hyn yn arwain at fwy o waith i'r gweithredwyr a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran ceisiadau, penderfyniadau a rheoleiddio trwyddedau pwrpasol. Awgrymodd yr ymatebydd i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu ei ddull trwyddedu ar ôl cyfnod o weithredu i benderfynu a ellid llacio'r meini prawf ar gyfer trwyddedau rheolau safonol.

**Ein hymateb**

Mae effeithiau ar ansawdd yr aer yn gymhleth ac mae cyfuniad o baramedrau'n dylanwadu arnynt. Mae uchderau'r cyrn simdde a'r pellteroedd i'r derbynyddion agosaf wedi'u pennu ar gyfer pob senario gan ddefnyddio modelu gwasgaru a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gan dybio'r achosion gwaethaf o ran lleoliadau gyda'r gwynt.

Mae'r asesiadau risg yn llywio'r amodau sy'n ymwneud â chyfradd y mewnbwn thermol, gwerthoedd terfyn allyriadau, oriau gweithredu, math o danwydd, crynodiadau cefndir, a phellter i dderbynyddion iechyd dynol ac ecolegol sensitif, felly mae'n rhaid i'n hasesiadau risg fod yn ddigon cadwrol i gwmpasu pob math o gyfarpar a gweithrediadau a allai ddod o dan bob math o drwydded rheolau safonol. Buom yn gweithio gyda'r diwydiant wrth ddatblygu'r trwyddedau rheolau safonol i daro'r cydbwysedd cywir rhwng y paramedrau aml-safle a'r risg amgylcheddol; serch hynny, rydym yn derbyn y dylid adolygu ein dull trwyddedu cyfarpar hylosgi canolig / generaduron penodol yn dilyn cyfnod o weithredu.

## 1.5.2 Effaith ariannol y setiau o reolau safonol

**Sylw**

Nododd un ymatebydd nad yw'r cynigion wedi gwella effaith ariannol y trwyddedau hyn ac y byddai angen trwydded bwrpasol gymhleth ar y rhan fwyaf o'u safleoedd o hyd.

**Ein hymateb**

Er bod teclyn sgrinio Tranche B Asiantaeth yr Amgylchedd / Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ddatblygu i eithrio cymaint o fathau o gyfarpar risg isel â phosibl, bydd angen trwydded bwrpasol gymhleth ar gyfer rhai cyfarpar risg uchel o hyd yn dibynnu ar ei leoliad, maint, tanwydd, oriau gweithredu ac ati. Rydym wedi gosod rhai o'n ffioedd ymgeisio isaf ar gyfer rheolau safonol cyfarpar hylosgi canolig / generaduron penodol risg isel ond, ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein holl ffioedd cyfarpar hylosgi canolig / generaduron penodol o dan ein rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC).

**Sylw**

Awgrymodd un ymatebydd fod Cyfoeth Naturiol Cymru'n adolygu'r holl geisiadau am drwyddedau pwrpasol sy'n cael eu pennu ar hyn o bryd ac ystyried a ydynt yn gymwys o dan y trwyddedau rheolau safonol diwygiedig. Awgrymodd hefyd, lle bo trwyddedau eisoes wedi'u cyflwyno ac y byddent bellach yn gymwys i gael trwydded rheolau safonol, y dylai'r gweithredwyr hynny fod â hawl i ofyn am drwydded rheolau safonol newydd neu newid eu hamodau trwydded i gyd-fynd â'r rhai sy'n berthnasol o dan y drwydded rheolau safonol gyfatebol.

**Ein hymateb**

Yn wreiddiol, gwnaethom ymgynghori ar y rheolau safonol hyn yn 2018, ac, ers hynny, rydym wedi gwneud newidiadau pellach i gynnwys cynifer o senarios ag sy'n bosibl o fewn cyfyngiadau amddiffyn yr amgylchedd. Mewn sefyllfa o'r fath sy'n datblygu, bydd cwmpas rhai rheolau safonol yn newid er budd rhai gweithredwyr.

Cyfrifoldeb y gweithredwr yw sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i drwydded ac i wneud cais am drwydded bwrpasol os nad yw bellach yn gallu bodloni meini prawf y rheolau safonol. Efallai codir ffioedd.

## 1.5.3 Sylwadau cyffredinol

**Sylw**

Nododd un ymatebydd nad yw presenoldeb allyriadau tarddle penodol gan gyfarpar hylosgi canolig / generaduron penodol nad oes angen eu trwyddedu ar y safle ar hyn o bryd yn atal y defnydd o'r drwydded rheolau safonol.

**Ein hymateb**

Cyfarpar hylosgi canolig a generaduron penodol y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau y mae'n rhaid eu trwyddedu ar hyn o bryd, felly gellir anwybyddu unrhyw allyriadau tarddle penodol gan gyfarpar hylosgi canolig neu eneraduron penodol nad ydynt eto'n ddarostyngedig i'r rheoliadau tan ddyddiad perthnasol y drwydded.

**Sylw**

Awgrymodd un ymatebydd nad yw SR2018 Rhif 6 yn cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig. Mae Tabl 3.2 yn pennu terfyn o 190 mg/Nm³ (15% O2) ar gyfer injan nwy cyfarpar hylosg canolig newydd ≥ 1 MWth sy'n defnyddio nwy naturiol. Mae'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig yn ei gwneud hi'n ofynnol cydymffurfio â 95 mg/Nm³ ar gyfer cyfarpar o'r fath. Dylid diwygio hyn.

**Ein hymateb**

Y gwerth terfyn allyriadau fyddai 95 mg/Nm³ pe bai'n gyfarpar hylosgi canolig newydd rhwng 1 ac 1.3 MWth (gweler Tabl 3.2). Fodd bynnag, gall generaduron penodol fod yn llai nag 1 MWth, ac felly nid ydynt yn gyfarpar hylosgi canolig, a byddai'n 190 mg/Nm³ mewn achos o'r fath. Byddai angen i eneradur penodol sy'n gyfarpar hylosgi canolig presennol rhwng 1 ac

1.3 MWth fodloni 95mg/Nm³ yn 2030, ond os oes ganddo gontract sy'n ei wneud yn eneradur penodol Tranche B, byddai angen iddo fodloni 190 mg/Nm³ tan yr amser hwnnw.

**Sylw**

Awgrymodd un ymatebydd nad oedd yn eglur beth oedd goblygiadau ‘N/A’ yn Nhabl 3.1 o SR2017 Rhif 1, 2, 3 a 6, a gofynnodd am eglurhad ar y gofynion cydymffurfio a monitro ar gyfer systemau gwres a phŵer cyfunedig presennol ac injans nwy heb systemau lleihau allyriadau (SR2018 Rhif 5).

**Ein hymateb**

Mae Tabl 3.1 yn nodi amleddau monitro yn dibynnu ar a yw system lleihau allyriadau wedi'i gosod i alluogi gweithredwyr i gydymffurfio â'r gwerth terfyn allyriadau. Ar gyfer y rhain, mae'r amlder monitro unwaith bob tair blynedd o gyflwyno’r drwydded. Byddwn yn dileu ‘N/A’ ac yn cynnwys ‘Bob tair blynedd lle mae system lleihau allyriadau wedi’i gosod, fel arall ni nodir dim’ ar gyfer boeleri gwres a phŵer cyfunedig i roi eglurder ac i fod yn gyson â generaduron penodol eraill. Lle nad oes angen system lleihau allyriadau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gwerth terfyn allyriadau, ni nodwyd amlder monitro. Mae hyn yn golygu nad oes angen monitro allyriadau o'r generaduron a gwmpesir gan y drwydded (nes bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion monitro o dan y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig) oni bai fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru reswm i fynnu monitro penodol fel y nodir yn amod 3.2.2.

Er mwyn egluro, rhaid trwyddedu cyfarpar hylosgi canolig presennol sydd â chyfradd mewnbwn thermol o fwy na 5 MWth erbyn 1 Ionawr 2024 a chydymffurfio â'r gwerthoedd terfyn allyriadau a nodir yn Nhablau 2 a 3 o Ran 1 o Atodiad II i'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig erbyn 1 Ionawr 2025. Rhaid trwyddedu cyfarpar hylosgi canolig presennol sydd â chyfradd mewnbwn thermol o lai na 5 MWth erbyn 1 Ionawr 2029 a chydymffurfio â'r gwerthoedd terfyn allyriadau a nodir yn Nhablau 1 a 3 o Ran 1 o Atodiad II i'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig erbyn 1 Ionawr 2030. Nodir yr amleddau monitro ar gyfer cyfarpar hylosgi canolig yn Rhan 1 o Atodiad III i'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig.

**Sylw**

Awgrymodd un ymatebydd nad oedd amod 3.2.2 yn glir a’i fod yn gwrthdaro ag amod 3.2.1.

**Ein hymateb**

Mae amod 3.2.1 yn gofyn i’r gweithredwr ymgymryd â’r gofynion monitro a nodir yn Nhablau 3.1 a 3.2, oni bai y cytunir yn ysgrifenedig fel arall gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cymerir y gofynion monitro hyn yn uniongyrchol o Atodiad III i Ran 1 o’r Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig.

Mae amod 3.2.2 yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn i waith monitro gael ei gynnal yn ogystal â’r gwaith monitro hwnnw a nodir yn Nhablau 3.1 a 3.2.

# 2 Y camau nesaf

Byddwn yn defnyddio’r ymatebion o’r ymgynghoriad hwn i lywio unrhyw ddiwygiadau i’r setiau o reolau arfaethedig.

Bydd y setiau o reolau safonol diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ym mis Ebrill 2020, ond bydd cyfnod hysbysu o dri mis ar gyfer deiliaid rheolau safonol presennol cyn i’r rheolau ddod i rym.

Os ydych wedi ymateb ac yn dymuno mynd ar drywydd eich ymateb, neu os hoffech gael mwy o fanylion ar unrhyw bwyntiau a wnaed yn y ddogfen hon, gallwch gyslltu â ni trwy e-bost, ffôn neu’r post:

| | |
|---|---|
| E-bost | permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| Ffôn | 0300 065 3000 |
| Post | Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP |